Cyfarfu'r Cyngor Cymuned, Tachwedd 15ed yn Neuadd Santes Ursula am 8 o'r gloch

Presennol : Huw Griffith, Islwyn Jones, Fred Jones, Dylan Davies, Margaret Lewis, Lyn Davies, Dai Jones a'r clerc.
Ymddiheuriad : Morgan Morgan, Rowland Rees Evans

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Hydref 18, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

<u>Materion yn codi</u>
<u>Goleuadau stryd</u>

Cysylltwyd â Simon Bray, Cyngor Sir, a Tina Cornes, Scottish Power a chytunwyd na fydd y Gymuned yn talu am y goleuadau stryd o hyn ymlaen ( dim ond y rhai sydd ynghyn drwy'r nos) Derbyniwyd tystysgrif (Unmetered supply Certificate) sy'n cadarnhau hynny.

<u>Biniau Halen.</u> Wedi ffonio eto ac wedi cael ymateb ond methu gwneud y cysylltiad hyd yn hyn. Daeth gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Sirol fod dau fin wedi eu clustnodi ar ein cyfer Trafodwyd lleoliad y biniau a chytuno i geisio archebu 3 yn ychwanegol ar ôl holi am y pris.

<u>Hysbysfwrdd Trefenter.</u> Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Raymond Burrell i holi am ei bris am wneud un a chwilio gwefannau eraill er mwyn cymharu.

Gosodwyd torch o babis coch wrth y gofeb ar Sul y cofio

<u>Gohebiaeth</u>

Pwyllgor Rheoli Datblygu mis Tachwedd, Clercs and Councils Direct, Lansio NHS 111, a gwybodaeth am Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr.

Llanwyd ffurflen ar gyfer grant mynwentydd yn ystod y flwyddyn 2017/18. Nodwyd ei bod yn bosib i'r Cyngor Sir neu Swyddfa Archwilio Cymru ofyn am weld anfoneb ynglyn â'r tâl felly rhaid gofyn i'r Clwb Ff I anfon anfoneb am yr arian ar ôl gwneud y gwaith o hyn allan.

Rhybudd fod ffurflenni praesept i'w hanfon yn ôl erbyn 25 Ionawr. Fe fydd cyfarfod arall cyn hynny.

<u>e-byst</u>

Gwybodaeth am sesiynau hyfforddi, a dyddiadau cynadleddau Un Llais Cymru.

Annog cefnogaeth i'r Lluoedd Arfog a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau cadoediad.

Datganiad i'r wasg wrth Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud y dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn barod i gynnal gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb y Cynghorau Sir.

<u>Materion ariannol</u>

Derbyniwyd a llanwyd ffurflen o'r banc yn diweddaru manylion y cyfrif. Talwyd £17 am dorch o babis coch

Cyfrif 2 Ar ôl derbyn £2500 oddi wrth medium scale wind farm Llety'r Bugail, mae'r cyfanswm nawr yn £28,951.48

Cyfrif Cyfredol. Derbyniwyd gweddill y praesept sef £1004. Y cyfanswm yn - £2891.36 ond disgwylir talu £182.75 i'r Archwilwyr Allanol

<u>Unrhyw Fater arall.</u>

Derbyniwyd cwyn bod gwartheg i'w gweld ar y tir comin uwch Trefenter. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r hawl i wneud hyn ar yr adeg yma o'r flwyddyn.

Codwyd mater y tâl am ddefnyddio'r Neuadd pa un a oedd gwahaniaeth tâl i'r rhai sy'n defnyddio adnoddau'r gegin a'r rhai sydd ond yn defnyddio'r golau. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau.

Cyhoeddodd Dai Jones ei fod am ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned am resymau iechyd. Derbyniwyd ei benderfyniad gan ddymuno iddo adferiad iechyd a diolch am ei bresenoldeb a'i gyfraniad tra bu'n Gynghorydd. Cytunwyd i wneud ymholiadau anffurfiol yn y lle cyntaf i geisio llenwi'r sedd wag.

Gan fod y Cyngor yn cyfarfod ar yr un noson â'r C Ff I a hynny'n medru achosi anawsterau ar brydiau, awgrymwyd dechrau cyfarfod y Cyngor am 7 o'r gloch yn hytrach nag 8 y tro nesaf ac adolygu'r trefniant newydd wrth fynd ymlaen.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Ionawr 17 2019